Derbynnydd Gwobr Gwirfoddoli Jiwbili Diemwnt Y Frenhines

# SNAP Cymru

## Gwybodaeth, Cyngor a Help gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol



**Rydym yn cynnig cyngor sy'n annibynnol ac am ddim i deuluoedd a phlant/pobl ifanc gydag ADY (0-25 oed)**

SQM

Helplines Partnership MEMBER

Registered with FR FUNDRAISING REGULATOR

disability confident COMMITTED

Agored Cymru

Investing in Volunteers

Llywodraeth Cymru Welsh Government

## Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth

Mae cael y cymorth sydd ei angen arnoch chi'n gallu bod yn brofiad dryslyd ac emosiynol. Mae gweithio gydag ysgolion, yr awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol eraill yn gallu bod yn frawychus er gwaethaf ymdrechion gorau pawb.

Mae SNAP Cymru yn cynnig gwybodaeth a chyngor diduedd i deuluoedd a phlant/pobl ifanc ag ADY (rhwng 0 a 25 oed)

Rydym yn darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch chi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ac i chwarae rhan weithredol yn addysg eich plentyn.

Rydym yn egluro prosesau a gweithdrefnau ADY mewn iaith syml er mwyn i chi wybod beth i'w ddisgwyl a pha ran y gallwch ei chwarae.

Ein nod yw eich grymuso a'ch cefnogi i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a'r awdurdod lleol i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu.





## Mae ein gwasanaethau yn:

### Ddiduedd

Dydyn ni ddim yn cymryd ochr, rydyn ni'n rhoi gwybodaeth sy'n seiliedig ar y gyfraith i'ch helpu chi i wneud penderfyniadau gwybodus

### Cyfrinachol

Dydyn ni ddim yn rhannu eich gwybodaeth oni bai eich bod yn dweud y gallwn ni wneud hynny

### Am ddim

Ni chodir tâl.

*"Mae gan fy mhlant ADY ac roedd cyngor a chefnogaeth SNAP yn wych. Pan fydd eich plentyn yn agored i niwed, mae angen i chi wybod bod rhywun yn gallu eich helpu i gael y gefnogaeth iawn"*



## Os oes angen help arnoch, cysylltwch â ni:


Llinell Gymorth: 0808 801 0608

e-bost: enquiries@snapcymru.org

www.snapcymru.org

@snapcymru SNAP Cymru


Gall y gwasanaethau yma eich helpu gyda chyngor syml 'untro' neu fwy manwl gan weithiwr achos o'ch tîm lleol


Cwmni cyfyngedig 2832114 | Elusen gofrestredig 1027599


*"Diolch o galon am y gefnogaeth yn ystod y broses yma. Mae wedi bod yn dda iawn ac yn galonogol gwybod y gallai tîm SNAP fod yno am gyngor. Mae wedi golygu llawer i mi ar adeg anodd iawn"*

## Beth rydyn ni'n ei wneud?

- Gwrando ar eich cwestiynau a'ch pryderon
- Rhoi gwybodaeth glir a dibynadwy am ADY mewn sefydliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion ac ôl-16
- Cynnig cymorth gyda phrosesau ADY a chyfraith ADY
- Rhoi cefnogaeth i baratoi ar gyfer cyfarfodydd (weithiau gallwn ddod gyda chi)
- Eich cefnogi drwy'r broses IDP
- Eich helpu i lenwi gwaith papur perthnasol, deall adroddiadau a llythyrau
- Gweithio gyda chi i edrych ar eich opsiynau
- Eich cyfeirio at wasanaethau eraill, gan gynnwys grwpiau cefnogi
- Eich helpu i osgoi a datrys anghydfodau
- Rydym yn aml yn gweithio gyda phlant a'u rhieni gyda'i gilydd, ond rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth uniongyrchol ac ar wahân i bobl ifanc.






Mae'n bosibl datrys y rhan fwyaf o bryderon ADY yn anffurfiol drwy siarad â lleoliad blynyddoedd cynnar, ysgol neu goleg eich plentyn. Mae cymryd rhan a chael help yn gynnar yn gallu gwneud gwahaniaeth go iawn i gynnydd eich plentyn.

Ond, os oes angen cymorth ychwanegol arnoch chi, gall SNAP Cymru roi gwybodaeth glir a syml i chi am eich opsiynau er mwyn i chi

- rannu eich barn yn hyderus, gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth
- deall eich sefyllfa a chymryd pa gamau bynnag sydd eu hangen arnoch chi
- eich helpu i ddatrys problemau a dod o hyd i atebion
- rhoi cyngor a chefnogaeth os na allwch chi gytuno

*"Rwy'n teimlo fy mod wedi fy ngrymuso ac yn barod i gael sgwrs gadarnhaol gyda'r ysgol!"*